Adroddiadau corfforaethol

# Cynllun Busnes

2025/26

SG/2025/111

# Cynllun Busnes 2025/ 26 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

SG 2025/111

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i

nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/official-documents a www.professionalstandards.org.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn **info@professionalstandards.org.uk**

ISBN 978-1-5286-5762-4

E03370222 07/25

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 40%
Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

professional standards authority
for Health and Social Care

# Beth rydym yn ei wneud

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) yw corff goruchwylio’r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Mae 10 sefydliad sy’n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn ôl y gyfraith. Rydym yn archwilio eu perfformiad ac yn adolygu eu penderfyniadau ar addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Rydym hefyd yn achredu ac yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith.

Rydym yn cydweithio â'r holl sefydliadau hyn i wella safonau. Rydym yn rhannu arfer da, gwybodaeth a'n harbenigedd rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym hefyd yn cynnal ac yn hyrwyddo ymchwil ar reoleiddio. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y DU ac yn rhyngwladol, gan roi arweiniad i lywodraethau a rhanddeiliaid. Trwy ein hymgynghori yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, rydym yn rhannu ein harbenigedd ac yn ehangu ein mewnwelediadau rheoleiddiol.

Mae ein gwerthoedd craidd o gywirdeb, tryloywder, parch, tegwch, a gwaith tîm, yn arwain ein gwaith. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a dull o weithredu ar **www.professionalstandards.org.uk**.

# Crynodeb o Gynllun Strategol

## Gweledigaeth

**Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.**

## Taith

**I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.**

# 2023-26

## Nod strategol 1

**Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.**

- Cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau ble mae'r risg mwyaf i'r cyhoedd.
- Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol trwy ein hadolygiad perfformiad, adolygiadau adran 29, cofrestrau achrededig, swyddogaethau polisi a chyfathrebu.
- Adolygu a gwella ein prosesau (gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol ble fo angen) i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon.

## Nod strategol 2

**Gwneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach**

- Arwain datblygiad rheoleiddio mwy effeithiol trwy adolygu ein safonau, a chyflawni gweithgareddau eraill yn cynnwys ymchwil, cyngor polisi a mentrau gwella ansawdd, megis rhannu arfer da.
- Hyrwyddo, dylanwadu a chefnogi diwygio rheoleiddio.
- Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio.

## Nod strategol 3

**Hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb**

- Gweithio gydag eraill i sefydlu ystod lawn o swyddogaethau a argymhellir yn *Gofal mwy diogel i bawb* ar gyfer Comisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhob un o bedair gwlad y DU.
- Gweithio gyda llywodraethau'r DU i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi strategaethau'r gweithlu.
- Gweithio gyda rheolyddion, Cofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo diwylliannau positif yn y gweithle; datrys unrhyw wrthdaro rhwng blaenoriaethau busnes a diogelwch cleifion; a rhwng mannau diogel, atebolrwydd a'r ddyletswydd gonestrwydd.

# 1. Cynllun Busnes 2025/26

## Polisi a Chyfathrebu

### Polisi

1.1. Byddwn yn rhoi cyngor i Lywodraethau'r DU mewn perthynas â diwygio rheoleiddio. Yn 2025/26 rydym yn disgwyl gweithio ar y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r rheolyddion a rôl yr Awdurdod. Oherwydd y cynnydd yn y gwaith sy'n ymwneud â diwygio byddwn yn ychwanegu un aelod o staff at ein Tîm Polisi i weithio ar ddiwygio. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio diwygiadau i wella rheoleiddio a chofrestru ymhellach.

1.2. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad Gofal Mwy Diogel i Bawb yn 2022, sy'n sail i'n Nod Strategol 3 presennol, ym mlwyddyn olaf ei gyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag eraill i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi cynllunio'r gweithlu. Byddwn yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y gyfres ehangach o gamau gweithredu a nodwyd gennym o fewn Gofal Mwy Diogel i Bawb, y cyflawnir llawer ohonynt drwy Nodau Strategol 1 a 2. Bydd hyn yn helpu llywio ein cynllunio ar gyfer ein cynllun strategol nesaf ar gyfer 2026-29, y byddwn yn dechrau ei ddatblygu yn rhan olaf 2025/26.

1.3. Byddwn yn cynnal ymchwil pellach i'r materion rheoleiddio a chofrestru a all effeithio ar gymesuredd a thegwch.

1.4. Byddwn yn datblygu polisi rheoleiddio yn ôl yr angen i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer iechyd ac i ymateb i risgiau a materion newydd sy'n effeithio ar reoleiddio proffesiynol, fel defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial. Byddwn yn parhau i fonitro ac ymateb i ymholiadau ac ymgynghoriadau. Byddwn yn ceisio gweithio mewn ffordd ystwyth, i'n galluogi i fod yn ymatebol o fewn cyfyngiadau tîm bach.

1.5. Byddwn yn parhau i adolygu trefniadau diogelu ar gyfer y rheolyddion a Chofrestrau Achrededig ac i hyrwyddo rheoleiddio cadarn ar gyfer rhai sy'n cael ymyriadau cosmetig heb fod yn llawfeddygol.

1.6. Byddwn yn cefnogi gwaith i gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Rheoleiddio Cyffyrddiad Cywir yn 2025, fel y nodir isod yn yr adran 'Dirnadaeth a Deallusrwydd'. Bydd ein gwaith polisi hefyd yn cefnogi datblygiad y sylfaen dystiolaeth ar gyfer newidiadau a wnawn i'n Safonau ar gyfer y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig yn 2026.

### Cyfathrebu ac ymgysylltu

1.7. Byddwn yn gweithredu ein strategaeth a'n cynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid diwygiedig, sy'n canolbwyntio ar wrando ar fwy o amrywiaeth o leisiau. Byddwn yn cynnal unrhyw gyfathrebiadau ac ymgysylltu sy'n deillio o'r ddiwygio rheoleiddiol a gwaith cysylltiedig. Byddwn yn rhoi unrhyw gamau gweithredu a nodwyd drwy ein harolwg o ganfyddiadau rhanddeiliaid 2024/25 ar waith.

Byddwn yn ceisio datblygu ein rhwydweithiau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig a chreu sianeli ar gyfer mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd a chleifion yn ein gwaith. Byddwn yn cynnal ein digwyddiadau blynyddol, ar-lein ac yn bersonol, gan gynnwys seminarau yng

Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

1.8. Ar ôl lansio gwefan newydd yn 2024/25, yn 2025/26 byddwn yn defnyddio hon i ddarparu cyfathrebiadau clir a llawn gwybodaeth am ein gwaith, ac i geisio adborth gan ein rhanddeiliaid.

1.9. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer gweithgareddau gwella rheoleiddio a chofrestru. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig.

## Rheoleiddio ac Achredu

1.10. Mae gwaith y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio a Chraffu yn cwmpasu pedair o swyddogaethau statudol yr Awdurdod: adrodd i Senedd y DU ar waith y rheolyddion (adolygiad perfformiad); adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol rheolyddion (adran 29); cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch penodiadau rheolyddion i'w Cynghorau a rheoli'r Rhaglen Cofrestrau Achrededig. Yn ogystal, mae'n ymdrin â phryderon a godwyd am reolyddion a Chofrestrau Achrededig.

### Adolygiad perfformiad

1.11. Bydd y tîm adolygiadau perfformiad yn parhau i adolygu pob un o'r 10 rheoleiddiwr ac adrodd i'r Senedd ar eu perfformiad. Yn 2025/26, byddwn yn dechrau trydedd flwyddyn ein hasesiadau o reolyddion yn erbyn disgwyliadau uwch i fodloni Safon 3, ein Safon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

1.12. Byddwn yn parhau i fonitro ôl-groniadau o achosion addasrwydd i ymarfer yn y rheolyddion ac yn cymryd camau fel y bo'n briodol.

1.13. Byddwn yn cwblhau’r adolygiad o’r Safonau Rheoleiddio Da, gan gyhoeddi Safonau a chanllawiau wedi’u diweddaru yn ystod 2025/26, cyn gweithredu’r Safonau yn 2026/27. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi’r gwaith o roi diwygiadau rheoleiddio ar waith ac yn gwneud newidiadau i’n prosesau yn ôl yr angen ar ôl rhoi’r diwygiadau ar waith.

1.14. Yn dilyn cyhoeddi adolygiadau annibynnol o’r NMC, byddwn yn monitro’r NMC yn well ac yn ystyried unrhyw newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i’n prosesau yn ehangach. Disgwyliwn ymgymryd â monitro gwell hyd nes y bydd yr NMC wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adolygiadau hyn a'n bod yn fodlon â'i berfformiad yn erbyn y Safonau. Yn ogystal â chanolbwyntio ein hadnoddau’n agosach ar yr NMC, bydd y monitro uwch yn cynnwys rheoli grŵp goruchwylio i fonitro ymateb yr NMC i’r argymhellion. Bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer y monitro ychwanegol hwn ac rydym wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer Swyddog Craffu ychwanegol o fewn y tîm Adolygu Perfformiad. Mae'r adnodd ychwanegol hwn hefyd yn angenrheidiol i alluogi'r tîm adolygu perfformiad i allu cyfrannu'n effeithiol at feysydd gwaith hanfodol a phwysig eraill, gan gynnwys diwygio rheoleiddio.

### Adran 29

1.15. Mae’r tîm adran 29 yn adolygu penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer y rheolyddion

i ystyried a yw'r rhain yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd. Os byddwn yn ystyried bod canlyniad yn annigonol, yna gallwn gyfeirio'r achos at y llys perthnasol.

1.16. Rydym yn derbyn pob penderfyniad sydd o fewn ein hawdurdodaeth. Mae gennym ddull cymesur a seiliedig ar risg o edrych ar benderfyniadau. Nid ydym yn adolygu achosion lle mae'r unigolyn cofrestredig wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr neu rai eraill (gan gynnwys ataliad pellach) lle yn ein barn ni mae'r penderfyniad yn annhebygol o fod yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Yn 2023/24 roedd hyn yn cyfateb i 944, neu 40%, o achosion y gwnaethom eu cau heb adolygiad.


1.17. Mae gennym broses tri cham ar gyfer achosion yr ydym yn eu hadolygu. Yn gryno, y camau hyn yw:

- adolygiad cychwynnol o'r penderfyniad i nodi unrhyw bryderon am y canlyniad
- os caiff pryderon eu nodi yn yr adolygiad cychwynnol, adolygiad manwl bapurau'r achos i asesu a yw pryderon yn golygu y gallai'r penderfyniad fod yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd
- cyfarfod achos i benderfynu a yw'r canlyniad yn annigonol ac y dylid ei gyfeirio at y llys perthnasol.

1.18. Rydym hefyd yn rhannu pwyntiau dysgu o'n hadolygiadau gyda'r rheolyddion i gefnogi gwelliannau mewn prosesau addasrwydd i ymarfer.

1.19. Yn 2023/24, derbyniodd yr Awdurdod 2,385 o achosion. Mae niferoedd wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers cwymp sylweddol yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, er bod y cynnydd hwn wedi arafu yn 2023/24. Ein disgwyliad cychwynnol yw y bydd nifer yr achosion yn 2025/26 oddeutu 2,500. Disgwyliwn gynnal tua 80-90 o adolygiadau achos manwl ac apelio tua 30 o achosion. Bydd ein hadnoddau presennol yn gallu darparu ar gyfer y nifer disgwyliedig o achosion.

1.20. Cynyddodd ein gweithgarwch apelio yn sylweddol yn 2023/24 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn 2021/22 a 2022/23 fe gyflwynom apêl ar 19 a 18 achos yn y drefn honno. Mae 30 o apeliadau yn 2023/24 yn cynrychioli cynnydd o 67% ar y flwyddyn flaenorol. Arweiniodd y cynnydd yn nifer yr apeliadau at gostau uwch, sy'n cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb 2025/26. Er bod nifer yr apeliadau yn amrywio o fis i fis, rydym wedi gweld



cynnydd parhaus yn nifer yr apeliadau ers mis Rhagfyr 2022, sydd wedi parhau i gael ei adlewyrchu yn 2024/25. Mae Ffigur 1 yn dangos nifer yr apeliadau a gyflwynwyd bob chwarter ers Ch1 2022, ynghyd â thuedd yn dangos y cynnydd.

### Cofrestrau Achrededig

1.21. Mae'r tîm achredu yn rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achrededig, a thrwyddi rydym yn achredu cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal heb eu rheoleiddio.

1.22. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn parhau i asesu ceisiadau newydd a cheisiadau i adnewyddu, gan gynnwys monitro yn ystod y flwyddyn ac unrhyw adolygiadau targedig.

1.23. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r GIG a'r Llywodraeth i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig ac alinio â meysydd lle mae angen y gweithlu. Byddwn hefyd yn parhau i wneud ein gwaith cyfathrebu ein hunain i godi ymwybyddiaeth.

1.24. Byddwn yn ymateb i bolisi neu ymholiadau Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar weithrediadau'r Cofrestrau Achrededig, megis ein prosiect diogelu, Adolygiad Bailey neu reoleiddio Rheolwyr y GIG.

1.25. Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, gan gyhoeddi Safonau a chanllawiau wedi'u diweddaru yn ystod 2025/26, cyn gweithredu'r Safonau yn 2026/27. Mae'r adolygiad o'r Safonau yn cael ei gynnal ar y cyd â'r adolygiad o'r Safonau Rheoleiddio Da.

1.26. Nid yw'r gwaith Cofrestrau Achrededig yn cael ei ariannu gan ffioedd gan y rheolyddion. Fe'i hariennir yn llawn gan y cofrestrau.

### Penodiadau i gyrff llywodraethu'r rheolyddion

1.27. Rydym yn rhoi cyngor i'r Cyfrin Gyngor ynghylch a oes gennym hyder yn y prosesau a ddefnyddir gan wyth o'r 10 rheoleiddiwr i benodi ac ailbenodi aelodau'r Cyngor. Mae ein gwaith yn berthnasol i'r broses yn unig; nid ydym yn llunio barn ar addasrwydd ymgeiswyr unigol ac nid oes gennym unrhyw lais o ran pwy a benodir.

1.28. Fe wnaethom adolygu 13 o brosesau penodi yn 2023/24. Disgwyliwn i'r nifer hwnnw fod yn debyg yn 2025/26.

### Pryderon

1.29. Rydym yn parhau i dderbyn pryderon am y rheolyddion, sy'n ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth ar gyfer ein gwaith goruchwylio. Yn 2023/24 cawsom 358, a oedd yn cynrychioli nifer tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Nid oes tuedd amlwg yn y nifer a dderbyniwn, ond nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod angen unrhyw newid yn yr adnoddau a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.

## Dirnadaeth a Deallusrwydd

1.30. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn newydd o'n datganiad polisi craidd, Rheoleiddio Cyffyrddiad Cywir, yn adlewyrchu sut mae rôl rheoleiddio wedi esblygu ers ein rhifyn diwethaf yn 2015.

1.31. Byddwn yn trefnu symposiwm gyda rhanddeiliaid yn Ch1 2025/26, ar bwnc trafodaeth i'w bennu yn ôl blaenoriaethau a materion polisi cyfredol.

1.32. Byddwn yn trefnu cynhadledd ymchwil yn Ch3 2025/26, yn seiliedig ar weithgarwch ymchwil cyfredol, gyda ffocws ar effaith a gwelliant.

1.33. Byddwn yn lledaenu'r hyn a ddysgwyd o'n hadroddiad a gomisiynwyd ar broses Addasrwydd i Addysgu (ymddygiad) y Cyngor Addysgu Cyffredinol (yr Alban) yn 2024/25 a byddwn yn gweithredu unrhyw ddysgu ar gyfer ein prosesau ein hunain ar gyfer cyflawni gwaith a gomisiynir.

1.34. Byddwn yn ystyried ceisiadau am gomisiynau yn ôl y gofyn, gan eu dwyn ymlaen lle maent o fewn ein harbenigedd a lle mae gofynion eraill ar ein capasiti yn caniatáu.

1.35. Byddwn yn cwblhau ein prosiect ar gamymddwyn rhywiol, gan gynnwys adroddiad i'w gynhyrchu erbyn diwedd Ch3 2025/26.

## Gwasanaethau Corfforaethol

1.36. Mae'r tîm yn darparu'r gwasanaethau canlynol: cyllid, adnoddau dynol (AD), technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, rheoli risg, archwilio, cyfleusterau, iechyd a diogelwch, parhad busnes, caffael a gweinyddu swyddfa.

1.37. Mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydliad annibynnol, effeithiol, yn darparu gwerth am arian. Mae'n cefnogi'r Bwrdd a'r weithrediaeth i gyflawni ymarferoldeb a gweithrediad llyfn y sefydliad.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

1.38. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y tîm yn parhau i gefnogi gweithrediad cyffredinol yr Awdurdod tra'n sefydlu'r gwelliannau a'r arbedion effeithlonrwydd a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

1.39. Bydd AD a Llywodraethu yn parhau i ddarparu cymorth o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl recriwtio ac ymateb i'r holl faterion staffio a materion AD.

1.40. Yn 2025/26 bydd y tîm Adnoddau Dynol hefyd yn ymwneud â sefydlu tri aelod newydd o'r Bwrdd. Yn ogystal, byddant yn gweithredu blwyddyn olaf y Strategaeth Pobl 2023-26 ac yn datblygu Strategaeth Pobl tair blynedd newydd ar gyfer 2026-29.

1.41. Bydd cyllid yn parhau i ddarparu rhediad effeithiol o'r swyddogaeth gyllid o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl drafodion ariannol, caffael a chyflogres. Byddant yn ymgorffori gwelliannau i adroddiadau ariannol a rheoli cyllidebau a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys datblygu rôl Partner Busnes Cyllid. Byddant hefyd yn parhau â'u harolygiaeth ragweithiol o'r holl gaffael.

1.42. Bydd TGCh yn parhau i ddarparu cefnogaeth desg gymorth effeithiol o ddydd i ddydd, rheoli contractau, rheoli cywiriadau, pwrcasu, seiberddiogelwch a pharhad busnes.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

1.43. Y blaenoriaethau allweddol fydd cyflawni cynllun gweithredu 2025/26 a datblygu amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer 2026-29.

# 2. Cyllid ac Adnoddau

2.1. Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel corff annibynnol gyda dyletswyddau statudol. Rydym yn atebol i'r Senedd.

2.2. Mae'r Awdurdod yn endid a ddosberthir i lywodraeth ganolog ac yn rhan o ffin gyfrifo'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Felly, mae ein cyfrifon yn cael eu cyfuno i gyfrifon DHSC.

2.3. Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu trwy:

- Ffioedd a gesglir gan y cyrff rheoleiddiol mae'n eu goruchwylio sy'n ariannu costau ei swyddogaethau rheoleiddiol a safonau.
- Incwm yn deillio o achredu cofrestrau gwirfoddol.
- Incwm am gyngor ac ymchwiliadau sydd wedi comisiynu'n benodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac/neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
- Incwm o weithgareddau eraill, er enghraifft, ffioedd o ddarparu cyngor a gwasanaethau cynghori i lywodraethau, cyrff rheoleiddio a sefydliadau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.

2.4. Dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'n ofynnol i ni ymgynghori gyda chyrff rheoleiddio yn eu cynghori o'n gofyniad cyllideb arfaethedig.

## Gwerth am Arian

2.5. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ein nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru. Rydym yn parhau i fonitro gwireddu buddion ar draws ein gwaith ac i ddyrannu adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

2.6. Mae swyddogaeth y Cofrestrau Achrededig wedi bod yn ariannu ei hun ers 2021/22. Trwy gydol 2024/25, rydym yn adolygu ein swyddogaeth adran 29 a allai nodi gwelliannau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd pellach.

2.7. Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2023-26 yn nodi ein cynlluniau i wneud y mwyaf o fanteision ein gwaith, gyda ffocws penodol ar gyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil, cyngor polisi, a rhannu arfer da.

2.8. Fe wnaethom gau Cynllun Pensiwn y GIG i ddechreuwyr newydd o fis Ebrill 2023 a chyflwyno cynllun Cyfraniadau Diffiniedig yn ei le. Mae arbedion o'r newid hwn eisoes yn digwydd.


2.9. Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir ar gyfer ein pwyllgorau Bwrdd a'n gweithdai, sy'n sicrhau arbedion mewn costau teithio a chynhaliaeth i aelodau'r Bwrdd.

2.10. Rydym wedi newid o gael cyfarfod Bwrdd ym mhob Gweinyddiaeth Ddatganoledig bob 18 mis i gael un bob dwy flynedd, ac mae hyn wedi lleihau costau sy’n gysylltiedig â llogi ystafelloedd, teithio a llety. Ategwyd hyn gyda seminar pwrpasol ar gyfer pob gwlad yn y flwyddyn nad ydym yn ymweld â hi, gan ddarparu gwasanaethau a chymorth ychwanegol.

2.11. Rydym wedi lleihau cost ein cynhadledd ymchwil flynyddol yn sylweddol trwy leihau'r hyd o ddau ddiwrnod i un, trwy godi ffi gofrestru resymol ar y rhai sy'n mynychu a thrwy gynnal y digwyddiad mewn lleoliadau llai costus.

2.12. Sicrhaom arbedion sylweddol drwy beidio â defnyddio asiantaethau recriwtio yn y ddau ymarfer recriwtio diweddaraf gan y Bwrdd.

2.13. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a wynebir gan nifer o unigolion cofrestredig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cost gyfartalog gwaith rheoleiddio a gosod safonau’r Awdurdod fesul unigolyn cofrestredig yn 2024/25 oedd £2.58. Mae hyn yn cymharu â £2.59 yn 2023/24, £2.65 yn 2022/23, £2.72 yn 2021/22, £2.68 yn 2020/21 a £2.70 yn 2019/20, fel y dangosir isod. Ar sail nifer yr unigolion cofrestredig ar 31 Mawrth 2025, ein ffi fesul unigolyn cofrestredig yn 2025/26 yw £2.74.




## Rhagdybiaethau

2.14. Mae’r tybiaethau ar gyfer busnes fel arfer yn 2025/26 y gwnaethom adeiladu ein cyllideb arnynt fel a ganlyn:

- Cynnydd cyflog o 3.5% ar gyfer yr holl staff ac aelodau’r Bwrdd o fis Ebrill 2025.
- Yn seiliedig ar y costau adennill cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, byddwn yn adennill 25% o gyfanswm gwariant ar gyngor cyfreithiol yn ymwneud ag achosion adran 29.

- Y bydd cyfanswm cost camau cyfreithiol yn debyg i 2023/24 (ar lefel uwch na blynyddoedd blaenorol) ac na fydd unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i adolygiad a29 yn arwain at gostau uwch.
- Y bydd nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer oddeutu 2,500, nifer yr adolygiadau achos manwl oddeutu 85-90 a nifer yr apeliadau oddeutu 30.
- Y bydd niferoedd staffio yn cynyddu o ddau (oherwydd ychwanegu Swyddog Polisi a Swyddog Craffu).
- Na chyflwynir unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n addasu dyletswyddau'r Awdurdod i'r fath raddau fel y bydd yn effeithio ar ein costau, yn ystod y flwyddyn.
- Y bydd y DHSC yn bwrw ymlaen â diwygio rheoleiddiol fel y cynlluniwyd.
- Y bydd y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn talu ei chostau (gan gynnwys unrhyw newidiadau i niferoedd staffio).
- Nad oes unrhyw gronfeydd wrth gefn dros ben i'w dychwelyd i'r rheolyddion o ganlyniad i gynnydd sylweddol heb ei gyllidebu mewn costau a29 ar 2023/24 a 2024/25 (costau cyfreithiol uwch a nifer llawer uwch o apeliadau).

2.15. O gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2024/25, mae costau staffio a chwyddiant wedi cynyddu ar rai costau nad ydynt yn ymwneud â staff (3%) a llwyth gwaith a29. Yn fwy penodol, mae angen dau swyddog ychwanegol arnom i gefnogi ein gwaith ar adolygiadau perfformiad a diwygio rheoleiddio; ac mae angen i ni gynyddu'r gyllideb a29 oherwydd costau cyfreithiol uwch a'r cynnydd sylweddol mewn apeliadau a29 o 2022/23 ymlaen. Bydd y gyllideb gyffredinol yn 2025/26 5.9% yn uwch nag yn 2024/25.

2.16. Y sefydliad staffio yn unol â'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yw:

| **Swyddi** | **2025/26** | **2024/25** |
|---|---:|---:|
| Prif Weithredwr | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 |
| Cyfarwyddwyr cynorthwyol | 1 | 1 |
| Penaethiaid swyddogaethau | 7 | 7 |
| Rheolwyr | 7 | 7 |
| Arbenigwyr technegol | 3 | 3 |
| Swyddogion a chynghorwyr | 21 | 19 |
| Gweinyddwyr | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **47** | **45** |


2.17. Mae'r 47 swydd hyn yn 2025/26 yn cyfateb i 44.7 cyfwerth ag amser llawn.

2.18. Y cynnydd cyffredinol yn y gyllideb yw 5.9%. Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi gallu disgowntio'r ffioedd sy'n ofynnol gan y rheolyddion trwy ddefnyddio cronfeydd dros ben. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd sylweddol heb ei gyllidebu mewn costau a29 yn 2023/24 a 2024/25 nid oes unrhyw gronfeydd wrth gefn dros ben ar gyfer 2025/26. Felly, yn y flwyddyn eithriadol hon o gynnydd mewn costau (yn bennaf yn sylweddol ar gyfer ein gwaith adran 29 oherwydd y nifer llawer mwy o apeliadau), o gymharu â'r gyfradd ffioedd gostyngol yn 2024/25, bydd y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer y rheolyddion yn 2025/26 yn 12.2% o gymharu â 2024/25.

2.19. Er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i reolyddion am sut y caiff ein cyllideb ei rhannu rhwng ein gwahanol swyddogaethau, rydym wedi dadansoddi ein costau staff (ein costau

mwyaf o dipyn) yn ôl swyddogaeth, fel y dangosir yn Ffigur 2.

**Ffigur 2**




| 2025/26 | Costau staff £'000 | Costau net eraill £'000 | Cyfanswm Costau £'000 |
|---|---|---|---|
| Cyfathrebu a Pholisi | 1,074 | 274 | **1,348** |
| Gwasanaethau Corfforaethol (CS) | 1,088 | 834 | **1,922** |
| Adran 29 (A29) | 617 | 537 | **1,154** |
| Adolygiad Perfformiad (PR) | 987 | 0 | **987** |
| **Cyfansymiau** | **3,766** | **1,645** | **5,411** |

## Cyllidebau dangosol

| **Rheoleiddio a safonau** | **2025/26 £'000** | **2024/25 £'000** |
|---|---|---|
| Gwariant gweithredu net (ac eithrio dibrisiant ar gyfer asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ac amorteiddiad cronfa ddata) | 5,411 | 5,109 |
| | | |
| Gwariant cyfalaf | 50 | 50 |
| **Is-gyfanswm** | **5,461** | **5,159** |
| Cronfa wrth gefn a ad-dalwyd | 0 | (290) |
| **Cyfanswm gofynion ariannu** | **5,461** | **4,869** |

## Dadansoddiad o'r gwariant

| | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | |
| Costau staff | 3,766 | 3,615 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,834 | 1,621 |
| ***Incwm*** | | |
| Incwm gweithredol | (189) | (127) |
| | | |
| **Gwariant gweithredu net** | **5,411** | **5,109** |

| Gwariant cyfalaf | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| Technoleg gwybodaeth | 40 | 40 |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10 | 10 |
| **Gwariant cyfalaf** | **50** | **50** |

## Costau gweinyddol

| | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| Penodiadau'r Bwrdd | 0 | 100 |
| Recriwtio | 15 | 15 |
| Hyfforddiant a chynadleddau | 75 | 73 |
| AD arall | 24 | 14 |
| Teithio staff | 10 | 10 |
| Gweinyddol arall | 41 | 40 |
| Deiliadaeth | 324 | 324 |
| Archwiliad | 70 | 68 |
| Cyfreithiol Corfforaethol | 10 | 10 |
| TGCh | 140 | 136 |
| Tâl y Bwrdd | 116 | 113 |
| Treuliau'r Bwrdd | 33 | 32 |
| Cynadleddau polisi | 45 | 45 |
| Cyngor ac ymchwil polisi a gomisiynwyd | 75 | 75 |
| Cyfathrebu | 20 | 45 |
| Ymgysylltiad | 134 | 109 |
| A29 cyfreithiol | 657 | 369 |
| Craffu ac Ansawdd (S&Q) cyfreithiol cyffredinol | 21 | 20 |
| Craffu ac Ansawdd arall | 24 | 23 |
| Dibrisiant | | 0 |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | **1,834** | **1,621** |

## Incwm gweithredol

| | 2025/26 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| Adfer costau Adran 29 | 164 | 119 |
| Incwm gweithredu arall | 25 | 8 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredol** | **189** | **127** |

## Cofrestrau Achrededig (cyllideb ddangosol er gwybodaeth yn unig)

| | Cyllideb 2025/26 £'000 | Cyllideb 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Ffioedd | 765 | 691 |
| Cyfanswm | **765** | **691** |
| **Gwariant** | | |
| Costau tâl | 435 | 407 |
| Costau nad ydynt yn dâl | 267 | 202 |
| Cyfanswm | **702** | **609** |
| **Cyfanswm dros ben/(diffyg)** | **63** | **82** |

# 3. Dangosyddion perfformiad allweddol

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol |
|---|---|
| **Penderfyniadau adran 29** | Nifer o achosion a dderbyniwyd [o gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Nifer yr Achosion a ystyriwyd mewn cyfarfod achos neu gyfarfod terfyn amser statudol [o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Apeliadau a gyflwynwyd [o gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol [o gymharu â'r llynedd] |
| **Adolygiadau Perfformiad** | 100% o adolygiadau perfformiad 2025 wedi'u cyhoeddi o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod adolygu |
| **Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio** | Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith ers 1 Ebrill 2025 |
| **Cofrestrau Achrededig – prosesau cyfredol** | 90% o Gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i'r asesiad blaenorol.<br><br>90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.<br><br>95% o'r Amodau'n cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad yr oedden nhw i fod.<br><br>100% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn pedwar mis i'r dyddiad cychwyn.<br><br>90% o benderfyniadau am geisiadau Safon 1 newydd yn cael eu gwneud o fewn pedwar mis i'w derbyn.<br><br>90% o benderfyniadau am achrediad llawn (Safonau 2-9) yn cael eu gwneud o fewn wyth mis i'w derbyn. |
| **Cyllid** | Amrywiant incwm / gwariant wedi'i gyllidebu yn llai na 5% |
| **TGCh** | Cau 85% o alwadau i'r ddesg gymorth o fewn 1 niwrnod<br>Diffyg argaeledd y system yn is na 10 awr |
| **Diogelwch gwybodaeth** | Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| **Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR)** | Delio â phob (100%) Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol |

| | |
|---|---|
| | Delio â phob (100%) cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol |
| **Cwynion** | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br>Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | Cyfanswm nifer y dilynwyr ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (o gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)<br><br>Nifer y dilynwyr newydd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (o gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)<br><br>Nifer yn ymgysylltu â'n postiadau cyfryngau cymdeithasol (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau). |
| **Defnydd o'r wefan** | Data blwyddyn hyd yma ar ddefnydd gwefan o fis Ebrill 2025 hyd yma gyda'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau<br><br>• Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws y wefan<br>• Tudalen lanio Gwirio Ymarferwr a thudalennau ymarferwyr penodol<br>• Tudalen hafan Cofrestrau Achrededig a thudalennau Cofrestrau Achrededig cysylltiedig |

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**cy.www.professionalstandards.org.uk**

ISBN 978-1-5286-5762-4

E03370222